# Cenn@d

MAI 17 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 116


## Difrodi eglwysi yn Manipur – beth yw ein hymateb?

Tra mae llygaid y byd ar y coroni a'r sefyllfa ddyrys yn Sudan, roedd negeseuon yn cyrraedd fy ffôn o Ogledd-ddwyrain India: 'Helô ... plis gweddïwch drosom ni ... Mae 'na ryfel cartref yn digwydd rŵan rhwng y llwythau a'r bobl Meitei'. O fewn rhai munudau, roedd negeseuon pellach – yn dangos lluniau o eglwysi'n wenfflam a phobl yn ffoi am eu bywydau.

### Beth yn union sy'n digwydd?

Mae'n wirioneddol anodd i ni yng Nghymru i amgyffred maint India! Yn ôl y Cenhedloedd Unedig, mae bellach wedi pasio Tseina yn y ras i fod y wlad fwyaf yn y byd: mae ganddi boblogaeth o dros 1.4 *biliwn*. Mae'r ardal rydyn ni'n ei hadnabod fel 'Gogledd-ddwyrain India' dros ddwbl maint y Deyrnas Unedig.

Yn ôl Open Doors, mudiad sy'n cefnogi ac yn rhoi llais i Gristnogion sy'n cael eu herlid o gwmpas y byd, mae India bellach yn un o'r llefydd peryclaf yn y byd i fod yn ddilynwr i Iesu Grist. Ers blynyddoedd mae Hindutva, y gred mai'r Hindŵiaid yw'r unig wir Indiaid, wedi bod ar gynnydd. Dyma ideoleg yr Arlywydd Narendra Modi a'i lywodraeth BJP. O ganlyniad i hyn, mae nifer o gyfreithiau sy'n cael eu defnyddio i erlid Cristnogion wedi cael eu pasio, ac mae'n gŵyn gyffredin fod yr heddlu'n troi llygad ddall i gam-drin. A dyfynnu gwefan Open Doors: 'Mae'n ymddangos fod eithafwyr Hindŵaidd yn cael ymosod ar eraill heb unrhyw ganlyniadau, gan ddefnyddio trais eithafol mewn rhai rhannau o'r wlad.'

Yn nhalaith Manipur yng Ngogledd-ddwyrain India mae gwrthdaro ethnig a chrefyddol wedi bod yn rhan o fywydau pobl ers blynyddoedd. Mae un grŵp ethnig, y Meitei, yn byw ar y gwastadedd o fewn y dalaith, ac yma mae grym a ffafr y llywodraeth yn gorffwys. Hindŵiaid yw'r rhan fwyaf o'r Meitei. Mae'r rhan fwyaf o dir y dalaith yn fryniau serth, a dyma lle mae'r grwpiau llwythol yn byw, heb lawer o'r gwasanaethau a'r breintiau mae'r Meitei yn eu profi. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn Gristnogion.

Mae India yn wlad o amrywiaeth diwylliannol ac ethnig rhyfeddol. Oherwydd hynny mae'r cyfansoddiad a chyfreithiau'r wlad yn gweithredu'n gadarnhaol i ddiogelu hawliau i'r bobl lwythol drwy roi statws arbennig iddynt fel 'llwythau rhestredig'.

Efallai fod trafod agwedd pobl at y Gymraeg yn gymorth i feddwl am natur y ddadl bresennol yn Manipur. Diolch i 'Mwng', Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac erthyglau cadarnhaol yn y *Guardian* (!), mae'n anffasiynol bellach i fod yn agored wrthwynebus i'r Gymraeg. Ond pan fydd camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i geisio hybu'r iaith – a symud o ryw ymrwymiad niwlog i weithred bendant – fe gwyd gwrthwynebiad gan rai sy'n honni eu bod o blaid cyfartaledd. Fe fyddwch chi'n gyfarwydd â datganiadau o'r math hwn: 'Dwi'n cefnogi'r Gymraeg *ond* ni ddylid newid enw'r mynydd hwnnw i fod yn uniaith Gymraeg, neu newid iaith yr ysgol honno i fod yn ysgol gyfrwng Gymraeg'. Ond y pwynt yw hyn – os nad yw plant Llanbobman yn derbyn addysg Gymraeg, geiriau gwag fydd yr ymrwymiad cyffredinol hwnnw i hybu'r iaith.

Yn ôl rŵan i Manipur. Mae'r boblogaeth Meitei – yr Hindŵiaid sy'n fwyafrif y boblogaeth ac sydd eisoes yn derbyn ffafr a braint –



Y trais ar y stryd yn Manipur, lle mae Cristnogion wedi'u targedu'n benodol

Llun https://www.opendoorsuk.org/news/latest-news/manipur-violence/

eisiau dod yn 'llwyth rhestredig' hefyd. Mae'r cymunedau llwythol yn y bryniau yn gwrthwynebu hyn, oherwydd byddai'n gwneud y syniad o 'lwyth rhestredig' yn ddiystyr yn y dalaith. Byddai'r llwythau'n colli eu hawliau i'w tir, i gynrychiolaeth wleidyddol a chyfleoedd academaidd, ymhlith pethau eraill. Ar hyn o bryd mae grwpiau mawr o ddynion Meitei yn mynd trwy ardaloedd llwythol yn llosgi, chwalu, treisio a lladd. Hyd yn hyn mae dros 50 o bobl wedi marw; mae'n debyg fod dros 20,000 ar ffo, a degau o eglwysi wedi eu llosgi. Mae'r llwythau'n cyhuddo'r llywodraeth ganolog o ochri gyda'r Meitei ac o beidio ymateb i'w galwadau am gymorth. Mae'n sefyllfa erchyll a thorcalonnus.

### Sut allwn ni ymateb?

1. Gallwn weddïo. Mae'n golygu llawer i Gristnogion Gogledd-ddwyrain India i wybod ein bod ni'n gweddïo drostyn nhw. Gadewch i ni weddïo:
   - am heddwch, am gyfiawnder, am ddiwedd i'r brwydro;
   - dros Gristnogion yn Manipur – o blith y llwythau Meitei;
   - dros arweinwyr llywodraeth India a'r wlad yn gyffredinol: y bydd cynllwynion pawb yn cael eu drysu, ac y bydd diwedd ar genedlaetholdeb militaraidd.
2. Gallwn hefyd gefnogi elusennau fel Open Doors, sy'n gwneud gwaith rhagorol yn cefnogi pobl mewn sefyllfaoedd anghenus iawn ac yn ymgyrchu ar eu rhan.
3. Ysgrifennwch lythyr i'ch Aelod Seneddol yn holi am y mater hwn yn benodol ac am erlid crefyddol yn India. Rydym ni wedi clywed llawer dros y blynyddoedd diwethaf am 'Global Britain', ac am gytundebau masnach, ac am y ffordd y bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig yn defnyddio'i dylanwad er lles eraill. Mae Open Doors yn gofyn i lywodraethau wneud rhyddid crefyddol yn rhan ganolog o gytundebau masnach â gwledydd eraill, ac ymroi i sicrhau fod gwledydd fel India yn cadw at eu cyfansoddiad, sydd (ar bapur) yn diogelu rhyddid crefyddol i bawb.

Mae difaterwch a digalondid yn medru llethu Cristnogion. Ond wrth edrych drwy'r Ysgrythur a thrwy hanes rydym yn gweld fod modd gweld newid mawr er gwell wrth weddïo a dyfalbarhau mewn gobaith.

*Andras Ll. Iago*


Wythnos Cymorth Cristnogol, 14–20 Mai 2023 – Pys yn cynnig Gobaith
**Tudalen 2**

Cyfarfod Cymdeithasfa'r Gwanwyn y Gogledd
**Tudalen 3**

Oedfa Ymadawol y Parchedig Llunos Gordon
**Tudalen 7**

# Wythnos Cymorth Cristnogol, 14–20 Mai 2023 – Pys yn cynnig Gobaith

Un sydd wedi elwa o gael cymorth gan bartneriaid Cymorth Cristnogol yw Esther Saizi, nain 54 oed sy'n tyfu pys colomennod. Gyda'r elw o werthu'r pys, mae Esther yn cefnogi ei dwy ferch i wireddu eu breuddwydion: y ferch hynaf i fod yn nyrs, ac yn achos y ferch ieuengaf hyfforddiant i fod yn saer coed. Mae wyrion Esther bellach wedi dechrau ar eu haddysg feithrin.





Nid yw pethau wedi bod yn hawdd i Esther wrth iddi ymdrechu i gael y pris gorau am ei chynnyrch, a difrodwyd rhan helaeth o'i chynhaeaf gan Storm Drofannol Ana. Drwy raglen pys colomennod y Nandolo Farmers' Association, newidiodd bywyd y teulu.

Bellach mae gan Esther eifr sydd yn cynhyrchu gwrtaith ar gyfer ei chnydau, gan ei harbed rhag gorfod prynu gwrtaith drud a pheryglus. Codwyd warws yn y pentref i gadw'r pys colomennod yn saff rhag unrhyw dywydd, a sefydlwyd banc hadau. Mae ganddi beiriant gwnïo ac mae hi hefyd wedi cynhyrchu ryseitiau i goginio bwyd maethlon gan ddefnyddio pys colomennod ar gyfer mamau yn y gymuned.

"Rydym yn gymuned sydd yn helpu llawer ar ein gilydd," meddai Esther. "Os oes rhywun yn wynebu problem, fyddan nhw ddim yn gwneud hynny ar eu pen eu hunain."

**Er mwyn cyrraedd mwy o deuluoedd bregus, dyma sut y gall eich cyfraniad helpu yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol 2023:**

- Gall £50 ddarparu hadau pys colomennod ac offer ffermio i deulu.
- Gall £70 brynu beic er mwyn galluogi ffermwr profiadol i gyrraedd cymunedau anghysbell gyda hyfforddiant ar dyfu pys colomennod.
- Gall £250 dalu am bopty cymunedol fydd yn cefnogi dros 800 o bobl wrth iddyn nhw bobi bara gyda blawd pys colomennod.
- Gall £1,000 dalu am brosesydd bwyd ar gyfer prosesu pys colomennod yn fwyd ar gyfer pysgod, er mwyn magu pysgod i'w gwerthu.

I gyfrannu, cliciwch ar y ddolen: Christian Aid Week 2023 - Christian Aid

# Cofio'r Parchedig Aled Jenkins

Ganwyd Goronwy Aled Jenkins yn Llanpumsaint, Sir Gâr, yn fab i Sidney a Gwladys Jenkins. Gweinidog yn eglwysi Bedyddiedig Ffynnonhenri a Throed-y-rhiw, Cwmduad, oedd y Parch. Sidney Jenkins. Yn 1941, symudodd y teulu i Sgiwen, pan dderbyniodd ei dad alwad i fod yn weinidog ar eglwys Fedyddiedig Horeb, Sgiwen. Hon oedd mam eglwys Aled, mewn gwirionedd, eglwys a'i cyflwynodd maes o law i'r weinidogaeth ac eglwys a fu'n gefn ysbrydol iddo ar hyd ei oes.

Yn y pumdegau, bu Aled yn astudio diwinyddiaeth yng Ngholeg y Bedyddwyr yn Richmond Road, Caerdydd, ac yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth Gristnogol. Cafodd ei ordeinio yn eglwys Fedyddiedig Pisgah, Y Pîl, ym mis Mawrth 1957. Bu yno'n ffyddlon fel pregethwr a bugail am 14 mlynedd, wedi ychwanegu Smyrna, Pen-y-fai, yn 1966.

Fel nifer o'i gyfoedion, aeth Aled i ysgol haf genhadol yn y Cilgwyn, ger Castellnewydd Emlyn. Yno daeth Aled wyneb yn wyneb â Marlene Grey, nyrs ifanc o ardal Port Talbot, a syrthio mewn cariad. Priododd y ddau ym mis Medi 1959. Dyma ddechrau partneriaeth hyfryd a llwyddiannus mewn gweinidogaeth a gwasanaeth a barodd am 64 mlynedd. Soniodd Aled droeon am ei ddyled i Marlene a'i gariad tuag ati, ac am ei chefnogaeth iddo gydol ei weinidogaeth. Buodd y ddau'n cydweithio a chydweddïo wrth arwain addoliad, arwain gwaith plant, bugeilio a mynychu cyfarfodydd a chynadleddau gyda'i gilydd.



Symudodd Aled a Marlene ym mis Mehefin 1971 i Eglwys Fedyddiedig Salem, Llangennech, a gwasanaethu'r eglwys yno am 11 mlynedd. Daeth galwad eto: 'Go West, young man', a symudodd Aled a Marlene i Sir Benfro, i aros. Dechreuodd ei waith ym mis Medi 1982 yn eglwysi Bedyddiedig Blaenllyn, Newton a Felinganol. Bu'n ffyddlon i'r eglwysi hyd eithaf ei allu a'i nerth, hyd y diwedd!

Yn 2007, dathlodd Aled 50 mlynedd yn y weinidogaeth Gristnogol, a derbyniwyd nifer o gyfarchion iddo ar yr achlysur am ei waith cydwybodol a ffyddlon. Soniodd y swyddogion ar y pryd am ei ffyddlondeb fel bugail, ei ddawn fel pregethwr a'i ddoethineb fel arweinydd. Roedd Aled yn frwd ei gefnogaeth i Gymdeithas Dydd yr Arglwydd yng Nghymru ac i Frecwast Gweddi Cymraeg Sir Benfro. Roedd ganddo ddiddordebau amser hamdden hefyd, sef chwaraeon, pysgota a gwyliau mewn carafán.

Wedi cystudd byr, bu farw'n dawel yn ei gartref yn Simpson Cross, yn 89 mlwydd oed, yng nghwmni ei briod ffyddlon, Marlene. Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel Newton, Castell Haidd, ddydd Mercher, 15 Chwefror 2023, dan ofal ei gyfaill yn y weinidogaeth yn Sir Benfro, y Parch. Geraint Morse. Daeth cynulleidfa fawr i'w angladd o ardal eang ar draws de Cymru, gyda nifer o weinidogion yn bresennol. Cafwyd teyrnged a phregeth yn seiliedig ar ran o lythyr Paul at y Colosiaid, darn addas iawn i gofio Aled, gyda phwyslais ar dri pheth: gweddi, y Gair a'r gynulleidfa:

> Parhewch i weddïo yn ddyfal, yn effro, ac yn ddiolchgar. Gweddïwch yr un pryd drosom ninnau hefyd, ar i Dduw agor inni ddrws i'r gair, inni gael traethu dirgelwch Crist, y dirgelwch yr wyf yn garcharor er ei fwyn. Gweddïwch ar i mi ei amlygu, fel y mae'n ddyletswydd arnaf lefaru. Byddwch yn ddoeth eich ymddygiad tuag at y rhai sydd y tu allan; daliwch ar eich cyfle. Bydded eich gair bob amser yn rasol, wedi ei flasu â halen, ichwi fedru ateb pob un fel y dylid. (Colosiaid 4:2–6)

Coffa da amdano, gwas ffyddlon i'r Arglwydd Iesu.

*Geraint Morse*

# Cyfarfod Cymdeithasfa'r Gwanwyn y Gogledd

Daeth cynrychiolaeth dda o eglwysi'r gogledd i Gapel y Rhos, Bae Colwyn, ar 25 Ebrill 2023. Arweiniwyd y cyfarfodydd yn drefnus gan y Llywydd, y Parch. Eric Greene. Rhoddodd groeso i'r gwahoddedigion ac aethpwyd yn hwylus drwy'r broses ffurfiol o dderbyn y cofnodion ac adroddiadau'r gwahanol bwyllgorau. Trafodwyd cenadwrïau gan yr Henaduriaethau a rhoddwyd sylw arbennig yn nodi gwrthwynebiad cadarn y Gymdeithasfa i 'Fil Mewnfudo' Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Penderfynwyd anfon negeseuon at rai mewn awdurdod a'r cyfryngau.

Yn y prynhawn cafwyd hanes yr achos yn Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy gan Huw Roberts. Roedd yr Henaduriaeth hon yn cynnwys ardal eang iawn, o'r arfordir i gyrion pellaf Nant Conwy, draw i Lanuwchllyn ac ardaloedd Carrog a Chynwyd. Roedd cryn heriau yn wynebu'r Henaduriaeth, yn cynnwys materion ariannol a'r perygl o brinder caffael gweinidogion. Yn ddiweddar crëwyd strategaeth bendant dan yr enw 'Bugeilio'n Hardaloedd' i hybu gweithio mewn timau. Pwysleisiodd yr angen i gynllunio ymlaen gyda hyder a ffydd yn hytrach na byw ar y gorffennol. Holwyd ynghylch yr achos yn effeithiol gan y Parch. R. O. Jones, un o gyn-weinidogion Dyffryn Conwy.

Cafwyd adroddiad cryno ac i'r pwynt gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parch. Nan Powell-Davies, a adlewyrchodd heriau cyfredol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Nododd yr angen i fod yn greadigol yn wyneb lleihad mewn aelodaeth a chost cadw adeiladau'n agored. Atgoffodd y cynrychiolwyr i wneud ceisiadau am grant arloesi Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gyflogi gweithwyr.

Pleser mawr gan y Llywydd oedd llongyfarch gweinidogion a blaenoriaid am eu hir wasanaeth i'r enwad, a chyflwynodd dystysgrifau iddynt.

Yng nghyfarfod yr hwyr cafwyd coffâd am y gweinidogion a'r blaenoriaid o'r gogledd a fu farw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cawsom araith ymadawol y Llywydd, y Parch. Eric Greene, a nododd yr amser prysur ond pleserus a gafodd yn ystod ei amser fel llywydd.

Trosglwyddodd Feibl y Llywydd i'r Llywydd newydd, y Parch. Anna Jane Evans. Nodwyd mai hi yw'r drydedd aelod o'i theulu sydd a'i henw ynddo. Gweinyddwyd Swper yr Arglwydd gydag urddas gan y Llywydd newydd.

Mae llawer o ddiolch gan yr Henaduriaeth i'r Parch. Helen Wyn Jones ac aelodau eraill y capel am eu gwaith caled a thrwyadl yn paratoi at ddigwyddiad mor llwyddiannus.

**Llongyfarchwyd y canlynol:**

**Gweinidogion**
**60 mlynedd**
Y Parchedig R. E. Hughes – a ymatebodd drwy ddyfynnu dau bennill o un o emynau William Williams, Pantycelyn:

> Boed mywyd oll yn ddiolch
> dim ond diolch yw fy lle;
> ni wna gwaredigaeth ragor
> i greadur is y ne':
> gallu'r nefoedd
> oedd a'm daliodd i i'r lan.
>
> Rhaid oedd bod rhagluniaeth ddistaw,
> rhaid oedd bod rhyw arfaeth gref
> yn rhwymo heb im wybod
> wrth golofnau pur y nef:
> O ragluniaeth
> ti sy'n trefnu'r ddaear faith.
> (*Caneuon Ffydd*, 713)

**50 mlynedd**
Y Parchedig Eric Jones BD – a ymatebodd drwy gyfeirio at yr addewidion a wnaeth adeg ei ordeinio

**Blaenoriaid**
**70 Mlynedd**
**Y Gogledd-ddwyrain**
Mr Idris W. Davies, Bethesda, Y Waun

**60 mlynedd**
**Arfon**
Mr Wyn Griffiths, Berea Newydd

**Dyffryn Clwyd**
Mr T. Noel Jones, Ebeneser Unedig, Rhuddlan
Mr J. Trebor Roberts, Eglwys Unedig Llansannan

**Y Gogledd-ddwyrain**
Dr W H Roberts OBE, YH, Altrincham

**Gorllewin Gwynedd**
Mr Gwilym Hughes, Smyrna, Llangian

**50 mlynedd**
**Dyffryn Clwyd**
Mr Arthur Williams, Clawddnewydd
Mr R. E. Melfyn Williams, Hyfrydle, Betws-yn-Rhos

**Y Gogledd-ddwyrain**
Mr John Lyons, Crosby Road South, Waterloo

**Gorllewin Gwynedd**
Mr Goronwy Roberts, Edern gynt

**Môn**
Mr William Selwyn Jones, Rhos y Gad
Mr Idwal Parry, Bethel Hen
Mr Trefor Thomas, Noddfa Unedig

**40 mlynedd**
**Arfon**
Mr John Humphreys, Seilo
Mr Bleddyn Jones, Seilo
Mr Thomas Alun Williams, Seilo

**Conwy a Dyfrdwy**
Mr Robert D. Roberts, Capel y Rhos
Mr Gwyn Williams, Bethel, Melin-y-coed
Mr Emyr Wyn Jones, Rhosygwaliau
Mr Trefor Lewis, Peniel, Deganwy
Mr John Davies, Seilo, Llandudno (Gorllewin Meirionnydd)
Mr Merfyn Jones, Seilo, Llandudno (Dwyrain Morgannwg)
Mr David S. Davies, Peniel, Deganwy (1982 Dyffryn Clwyd)

**Dyffryn Clwyd**
Mrs Eira P. Jones, Tabernacl, Rhuthun,
Mr Gwilym Luke Jones, Eglwys y Capel Mawr a Seion, Dinbych
Mr John Morris Jones, aelod yn Rehoboth, Prestatyn

**Y Gogledd-ddwyrain**
Mr William M, Williams, Y Berthen, Licswm
Dr Goronwy Wynne, Y Berthen, Licswm
Mrs Maureen Roberts, Hill Street, Rhosllannerchrugog

**Gorllewin Gwynedd**
Mrs Ellen A. Jones, Bethel, Penrhos
Mr Gwilym H. Griffiths, Llwyndyrys
Mr Gwyn D. Roberts, Llwyndyrys
Mr Tom G. Ellis, Moreia, Trawsfynydd

**Môn**
Mr Dewi Lewis-Jones, Barachia, Llandegfan
Mrs Margaret Jane Williams, Dothan
Mrs Helen Wynn Davies, Horeb, Llangristiolus
Mr Aled Wynn Davies, Horeb, Llangristiolus

**Trefaldwyn**
Mrs Annora Johnson, Coventry
Mrs Iola Evans, Rhiwlas



Y Parch. R. E. Hughes (60 mlynedd)



Y Parch. Eric Jones (50 mlynedd)

# O’r Llwyfan




Traffig Cymru © Hawlfraint y Goron 2018 https://traffig.cymru/prosiectau-cyfredol/a55-a494-a550-a5-a483-gwaith-cynnal-chadw-cylchol

## Duw ar waith!

Bob blwyddyn fe fydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn paratoi dau gyhoeddiad, sef y Llawlyfr a’r Adroddiad Blynyddol. Cyhoeddir y Llawlyfr ar ddechrau’r flwyddyn ac mae’n cynnwys manylion am y gweinidogion, y cymanfaoedd a’r eglwysi, ynghyd â’r rhif aelodaeth hollbwysig! Yna, yn nes ymlaen yn y flwyddyn, eir ati i baratoi’r Adroddiad a ddosberthir i bob eglwys cyn ei gyflwyno gerbron y Cyfarfodydd Blynyddol a gynhelir fel arfer ym mis Mehefin. Bydd yr Adroddiad yn cynnwys crynodeb o holl weithgaredd yr Undeb yn ogystal â’r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae’r ddau gyhoeddiad yn arwyddocaol a rhaid cyfeirio at y naill a’r llall os am sicrhau unrhyw fath o ddealltwriaeth o waith yr Undeb. Nid yw’n deg i ni fanylu ar yr ystadegau yn unig sydd, ysywaeth, yn dangos lleihad yn niferoedd ein haelodau, heb ein bod yn rhoi sylw hefyd i’r gwaith a gyflawnir i gynorthwyo ein heglwysi i rannu neges yr Efengyl. At hynny, mae cylchgronau fel *Cenn@d* yn ogystal â’r *Negesydd* (cyhoeddiad Undeb Bedyddwyr Cymru) yn gyfryngau pwysig i galonogi ac annog ein gilydd wrth inni ddarllen am y newyddion diweddaraf.

Ond yn anad dim mae’r Llawlyfr a’r Adroddiad Blynyddol yn fodd i ddangos fod yna newid ar droed yn ein heglwysi heddiw. Cyn bo hir byddwn yn dathlu’r Sulgwyn pan gawn ein hatgoffa mai creadigaeth yr Ysbryd Glân yw’r eglwys a gwrthrych cariad Crist. Dyma’r Ysbryd sydd yn gwrthod aros yn llonydd ond sy’n ein galw fel eglwysi i ymateb yn gadarnhaol i her yr unfed ganrif ar hugain. Tra bo digon o reswm gennym i anobeithio a digalonni ar hyn o bryd, mae angen i ni edrych y tu hwnt i naratif y dirywiad a gweld arwyddion cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Un o’r llyfrau a ddarllenais yn ddiweddar oedd cyfrol o waith Steve Aisthorpe, *The Invisible Church: Learning from the experiences of churchless Christians*, sef astudiaeth o brofiadau Cristnogion a benderfynodd droi cefn ar yr Eglwys. Mae’r awdur yn sôn hefyd am bobl a ddilynodd gyrsiau Alpha a ‘Darganfod Cristnogaeth’ ond nad oeddent wedi ymaelodi ag unrhyw eglwys leol ar ôl gorffen y cyrsiau hynny. Er hynny, mae’n gyfrol lawn gobaith ac yn werth ei darllen, ac fe’n hanogir i edrych y tu hwnt i’r ystadegau er mwyn gweld darlun o Dduw ar waith mewn eglwys sydd yn newid yn gyson.

Ond ble mae’r arwyddion hynny mewn cyd-destun o drai? Wrth gwrs, gellir gweld Duw ar waith yn y mannau mwyaf amlwg: yn y banciau bwyd, yng ngwaith bugeiliaid y stryd a gwasanaeth diflino a thawel yr unigolion hynny sy’n estyn llaw cymorth a gofal dros eraill yn ein cymdeithas. Ond fe ddown ni o hyd i Dduw hefyd ar waith yn y mannau mwyaf annisgwyl!

Yn bur anaml y byddaf yn gwrando ar *Woman’s Hour* ar Radio 4, ond ar ddydd Llun Gŵyl y Banc eleni neilltuwyd rhan o’r rhaglen i olrhain hanes y feudwyes Julian o Norwich, ac felly rhaid oedd gwrando. Thema’r rhaglen oedd yr hyn a all ein hysbrydoli yn feunyddiol, yn arbennig efallai mewn cyfnodau anodd, ac fe gyfeiriwyd at eiriau enwog Julian: “All shall be well and all shall be well and all manner of things shall be well”. Roedd Julian yn byw yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg, sef cyfnod y pla du a’r erledigaethau crefyddol. Bu’n myfyrio ar y gweledigaethau a gafodd; ysgrifennodd amdanynt a mentrodd gyflwyno dehongliad gwahanol o’r Duw oedd yn cael ei gyflwyno bryd hynny gan yr eglwys. Yng nghyfnod Julian ystyrid Duw fel Duw llawn dicter a oedd yn awyddus i gosbi ei bobl, ond mentrodd y feudwyes gyflwyno darlun o Dduw oedd yn caru ei bobl a hynny yn union fel mam. Peth digon chwyldroadol yn y bedwaredd ganrif ar ddeg!

Hyfrydwch oedd gwrando ar ei hanes a’r modd y bu’n gyfrwng i ysbrydoli eraill. Efallai’n wir yr ysbrydolwyd rhai o’r gwrandawyr i fynd ati o’r newydd i ddysgu mwy am Julian ac i ddeall pwy yn union oedd gwrthrych ei ffydd a’i chariad. A thybed a oedd yr eitem hon ar y rhaglen *Woman’s Hour* yn enghraifft o Dduw ar waith heddiw?

Felly, yn hytrach na’n bod yn digalonni ac yn anobeithio, mae’r cyfnod hwn yn cynnig cyfleoedd unigryw inni fel eglwysi i gyflwyno gwirioneddau’r ffydd Gristnogol heb ein bod o reidrwydd yn cyfyngu ein hunain i batrymau hanesyddol nac ychwaith i sefydliadau enwadol. Fel y mae Steve Aisthorpe yn ei awgrymu, mae heddiw yn gyfle i ailddarganfod hanfodion Cristnogaeth a’n hunaniaeth yng Nghrist.

*Judith Morris*

Neges Heddwch ac Ewyllys Da
Peace and Goodwill Message

**Gwrth-hiliaeth**
**Anti-racism**

Urdd

# GALW. NHW. ALLAN.

# CALL. THEM. OUT.

Rhanna. Cefnoga. Gweithreda.

Share. Support. Take action.



## Galw. Nhw. Allan.

Agor dy lygaid
Mae'n bryd torri lawr hiliaeth systemig,
a sylweddoli
bod hiliaeth yn dal i fodoli.

Casineb o gwmpas y ffordd da ni'n edrych
a dim digon o barch i'n gwahaniaethau a'n prydferthwch,
gwahaniaethau sy'n plethu mewn undod, gyda'n hunaniaeth a'n Cymreictod.
Ond rydyn ni angen gweld cynrychiolaeth deg
yn ein ysgolion..
yn ein swyddi..
yn ein cymdeithasau..
ar draws y byd.

Felly, galwn allan er mwyn i'n lleisiau gael eu clywed.
Galwn allan am lefydd saff i adeiladu cymunedau newydd.
Galwn allan i godi ymwybyddiaeth
dros ein ffrindiau a'u cefndiroedd.
Mae'n hen bryd i'r agwedd tuag at liw ein croen newid.

Mae angen i ni annog caredigrwydd
ac addysgu
i dderbyn a gwella perthynas rhyngddom
ni a phawb

Does dim lle i sylwadau hiliol.
Os da chi'n eu clywed, mae'n rhaid
Galw. Nhw. Allan
Does dim lle i ragfarnau.
Os da chi'n eu gweld, mae'n rhaid
Galw. Nhw. Allan.

Cymerwch ran

**18 Mai 2023**

Rhannwch ein Neges Heddwch ac Ewyllys Da ar Wrth-hiliaeth ar y cyfryngau cymdeithasol ar Mai 18, gan ddefnyddio:

#Heddwch2023

Diolch am eich cefnogaeth.

@Urdd
Urdd Gobaith Cymru
@urddgobaithcymru

heddwch@urdd.org
www.urdd.cymru/heddwch

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 24 Lletygarwch a'i fendithion (rhan 1)

### Darllen: Genesis 18:1–15

### (Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 18)

Wrth inni symud at yr hanes cyfarwydd yma, yr wyf wedi bod yn meddwl am Hebreaid 13:2, 'Peidiwch ag anghofio lletygarwch, oherwydd trwyddo y mae rhai, heb wybod hynny, wedi rhoi llety i angylion.' Yn wir, wrth edrych drwy'r Ysgrythur, mae'r thema hon yn cael ei hailadrodd droeon. Meddyliwch am yr adnodau hyn: 'Ni chafodd y dieithryn gysgu allan; agorais fy nrws i'r crwydryn' (Job 31:32); 'Onid dyma'r dydd ympryd a ddewisais: tynnu ymaith rwymau anghyfiawn, a llacio clymau'r iau, gollwng yn rhydd y rhai a orthrymwyd, a dryllio pob iau? Onid rhannu dy fara gyda'r newynog, a derbyn y tlawd digartref i'th dŷ, dilladu'r noeth pan y'i gweli, a pheidio ag ymguddio rhag dy deulu dy hun?' (Eseia 58:67); 'Oherwydd bûm yn newynog a rhoesoch fwyd imi, bûm yn sychedig a rhoesoch ddiod imi, bûm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref' (Mathew 25:35); 'Cyfrannwch at reidiau'r saint, a byddwch barod eich lletygarwch' (Rhufeiniaid 12:13); 'Byddwch letygar i'ch gilydd heb rwgnach' (1 Pedr 4:9).

Fel y gwelwch o'r adnodau enghreifftiol hyn, yr oedd lletygarwch yn hanfodol i ddeall pobl o ymateb duwiol, a phrin oedd y cyfyngu ar ein cyfrifoldeb yn y mater. I ni, symudwyd ers blynyddoedd bellach oddi wrth barodrwydd pobl i agor y drws i eraill, ac o ganlyniad, rhag i bobl feddwl ein bod yn drafferth, prin yw'r bobl sy'n dod i'r drws. Rhywbeth arall sy'n nodweddu'r pwyslais Beiblaidd yw'r ffaith fod lletygarwch i'w estyn i'r saint, ond i ddieithriaid yr un modd. Mae'r Gyfraith yn dysgu Israel: ' Oherwydd yr ARGLWYDD eich Duw yw Duw y duwiau ac Arglwydd yr arglwyddi, Duw mawr, cadarn ac ofnadwy; nid yw'n dangos ffafriaeth nac yn cymryd llwgrwobr. Y mae'n gwneud cyfiawnder â'r amddifad a'r weddw, yn caru'r dieithr, ac yn rhoi iddynt fwyd a dillad. Yr ydych chwithau i garu'r dieithryn, gan ichwi fod yn ddieithriaid yng ngwlad yr Aifft' (Deuteronomium 10:17–19). I'r duwiol yn yr Hen Destament, fel i'r rhai yn y Testament Newydd, canlyniad gwaith grasol Duw yn dod â ni allan o gaethiwed, o fod yn ddieithriaid Iddo yw ein lletygarwch. Mae'n ddameg weledol ym mywyd y Cristion. Tybiaf nad yw'r holl drafodaeth yma am ganiatáu i ddieithriaid ddod i'n gwlad yn ddim ond estyniad o'r hyn sydd wedi dod yn gynyddol wir amdanom ni fel unigolion.

Mae'r awdur at yr Hebreaid yn dysgu Cristnogion am y bendithion annisgwyl all ddod wrth agor y drws, gan nodi bod Abraham wedi gweld bod hynny'n agor y drws i angylion. Fel petai hynny ddim yn ddigon o ryfeddod, mae Iesu fel petai'n rhoi esboniad pellach ar y digwyddiad gan nodi – yn ateb i'r cwestiwn 'pryd y'th gwelsom ...?' – 'yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch' (Mathew 25:40).

Dyna fu profiad Abraham: agor ei ddrws i'r ymwelwyr nefol yma, ac wrth wneud hynny, cael braint unigryw yn yr Hen Destament, 'Cymerodd gaws a llaeth a'r llo yr oedd wedi ei baratoi, a'u gosod o'u blaenau; yna safodd gerllaw o dan y goeden tra oeddent yn bwyta' (adn. 8). Mae Duw yn torri i mewn i hanes pobl yn gorfforol droeon yn yr Hen Destament, e.e. mae'n torri mewn i fywyd Manoa a'i wraig, rhieni Samson. Sylwch sut mae'n ateb cais Manoa: "Beth yw d'enw, inni gael dy anrhydeddu pan wireddir dy air?" Atebodd angel yr ARGLWYDD, "Pam yr wyt ti'n holi fel hyn ynghylch fy enw? Y mae'n rhyfeddol!" (Barnwyr 13:17–18) Yn Genesis 18, er nad oedd Abraham yn deall ar y dechrau, mae'n dod i wybod bod yr hyn a dybiodd oedd yn ymweliad gan ddieithriaid yn ymweliad nefol. Yn dilyn ei barodrwydd i ddod 'â thamaid o fara' yn adn. 5, mae sylweddoli pwy sydd yno yn ei symud i baratoi gwledd.

Yr hyn sy'n unigryw am brofiad Abraham yw fod yr Arglwydd wedi dod, nid yn unig i rannu sicrwydd o'i addewid iddo ef a Sarah ac i ddatgelu beth ddeuai o Sodom a Gomorra, ond i rannu pryd o fwyd â hwy! Er nad wyf am eich llethu ag adnodau, eto, rhaid cloi gyda'r addewid sy'n cael ei gyhoeddi gan Iesu yn ei neges i Eglwys Laodicea: 'Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo; os clyw rhywun fy llais ac agor y drws, dof i mewn ato, a bydd y ddau ohonom yn cydfwyta gyda'n gilydd' (Datguddiad 3:20). Er mai dros dro y mae ymddangosiadau Duw yn yr Hen Destament i'w bobl, maent yn gysgod o'r un ymddangosiad, yr un ymgnawdoliad, fyddai'n golygu y byddai bellach gyda ni yn wastad: 'Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd amser.' Roedd y profiad o letya'r Arglwydd yn rhyfeddol i Abraham, ond i ni, nid cynnig llety, ond cynnig cartref fyddwn i'r un sydd am fyw ac aros gyda ni 'hyd ddiwedd amser'.

1. Beth yw'r rhesymau dros atal lletygarwch, a'r rhesymau dros beidio â cheisio lletygarwch?
2. Pa gyfleon sydd yn eich cymuned i estyn a meithrin gofal dros bobl?
3. Mae'r Gyfraith bob amser yn gosod ufudd-dod fel canlyniad i waith gras, e.e. cyn i Moses dderbyn y Deg Gorchymyn, mae Duw yn rhoi gorchymyn ar sail, 'Myfi yw'r ARGLWYDD dy Dduw, a'th arweiniodd allan o wlad yr Aifft, o dŷ caethiwed' (Exodus 20:2). I ba raddau y byddwch chi'n sicrhau eich bod yn adeiladu ufudd-dod ar ras Duw tuag atoch, yn hytrach nag ufuddhau gyda'r gobaith o adnabod gras?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 21 Mai, am 7.30yh**
**Estyn Dwylo**
Ryland Teifi fydd yn cwrdd â Chymry sy'n estyn dwylo ar draws y byd. Byddwn yn nodi Wythnos Cymorth Cristnogol a Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd. Cawn hefyd fwynhau dawn gerddorol Meilyr Hedd Tomos o Abergwaun.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 21 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**
Glenda Jones yn cyflwyno detholiad o emynau'n cael eu canu gan Gôr Heol y March.

**Sul, 21 Mai, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Catrin Ann Thomas, Llangadog

# Oedfa Ymadawol y Parchedig Llunos Gordon

Ar brynhawn Sul braf o wanwyn, sef 26 Mawrth 2023, cynhaliwyd Gwasanaeth Gollwng y Parch. Llunos Mai Gordon ar achlysur ei hymddeoliad.

Dan arweiniad Ms Bronwen Morgan, Llywydd yr Henaduriaeth, a chyda chynrychiolaeth dda o eglwysi'r ofalaeth, ynghyd â theulu a chyfeillion, cafwyd oedfa hyfryd yng nghapel hanesyddol Blaenannerch, a hynny er mwyn diolch i'w Gweinidog oedd wedi gwasanaethu'r ofalaeth yn ne Ceredigion ers dros un mlynedd ar ddeg.

Wedi gair o groeso a gweddi agoriadol gan y Llywydd, cafwyd darlleniad pwrpasol o'r Ysgrythur gan Mrs Geinor Griffiths yn Gymraeg, a Mr Jim Ramsbottom yn Saesneg.

Gorchwyl olaf, ond pleserus i Llunos, fel Gweinidog yr eglwysi, oedd cael croesawu ac estyn deheulaw cymdeithas i ddau aelod newydd yn eglwys Blaenannerch, sef Mr John Adams-Lewis a Mrs Morina Adams-Lewis.

Wedi i'r Parch. Irfon Roberts, Aberteifi, offrymu gweddi dros yr eglwysi, cyflwynodd Mr D. Hywelfryn Jones gyfarchion ar eu rhan. Yn rhodd i'r Gweinidog oddi wrth yr eglwysi cyflwynodd ddarlun hyfryd ac unigryw, a'r adnod: 'Bugeiliodd hwy â chalon gywir a'u harwain â llaw ddeheuig' (Salm 78, adnod 72) wedi'i hysgrifennu arno. Rhodd i'w drysori yn wir.

Yna, mynegwyd gair o werthfawrogiad o'i chyfraniad i waith yr Henaduriaeth gan y Parch. Carwyn Arthur, Ysgrifennydd yr Henaduriaeth.

Wedi'r ddefod o ollwng y gweinidog o'i chyfrifoldebau, a arweiniwyd gan y Llywydd, offrymwyd gweddi dros y Gweinidog gan Ms Meinir Loader, ffrind annwyl iddi, a merch i'r diweddar Barchedig Athro Maurice Loader, a fu'n athro ar Llunos yn y Coleg Coffa, Abertawe.

Mewn ymateb i'r rhodd, y cyfarchion, a'r gweddïau, ynghyd â'r un mlynedd ar ddeg o gydweithio hapus a bendithiol, mynegodd Llunos ei gwerthfawrogiad, gan gyfeirio at yr amser arbennig o hapus y bu iddi rannu yn eu plith.

Rhoddwyd y fendith gan y Parch. Carys Ann Lewis, Glynarthen a'r Cylch, eglwys, fel mae'n digwydd, lle y bu i Llunos gael ei hordeinio ar ddechrau ei gweinidogaeth yn Ionawr 1978. Hyfryd oedd gweld cyfeillion o'r Glyn yn bresennol yn yr oedfa.

Gwnaed casgliad arbennig yn ystod y gwasanaeth tuag at apêl Daeargrynfeydd Twrci a Syria, a chodwyd tua £650.



Hywelfryn Jones, Huw Davies, Y Parch. Irfon Roberts, Margaret Reed, Meinir Loader, Y Parch. Carys Ann, Y Parch. Llunos Gordon, Bronwen Morgan, Margaret Daniel, Y Parch. Carwyn Arthur

Wedi'r oedfa, cafwyd cyfle i fwynhau te hyfryd yn y festri a blasu darn o'r gacen arbennig oedd wedi ei pharatoi ar gyfer yr achlysur.

Diolch am y trefnu a'r paratoi trwyadl a fu ar gyfer y diwrnod, i'r organyddes Mrs Margaret Daniel am ei gwaith, i'r rhai a drefnodd y blodau, ac i gwmni Mr Orwig Davies am ddarparu gwledd o luniaeth ar ein cyfer.

Diolch i Dduw am oedfa hyfryd a chynnes ei naws, i bawb a ddaeth i rannu yn yr achlysur ac a gyfrannodd i'r oedfa arbennig.


Diolch hefyd i Mr Ken Griffiths am benillion arbennig:

### Ymddeoliad y Parchedig Llunos Mai Gordon

Fe fydd y praidd yn gwybod
Lle byddo bugail da,
A'r gofal ymhob hinsawdd,
Boed aeaf neu boed ha'.

Pan fyddo gwên neu ddagrau
Mewn chwerthin neu mewn braw,
O hyd roedd gair o'r galon
A chysur cydio llaw.

Ond wedi'r ymddeoliad
Daeth taw i'r geiriau hyn,
A'r praidd yn dal i gofio
Am fugail Llawr-y-glyn.



# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## *Gobaith*

**Emyn 689 'O Arglwydd, dywed im pa lun'**

**Darllen – Salm 68:1–14, 32–5**

### Oedi i feddwl

Mor aml yw gelynion yr Arglwydd; mor niferus yw'r rhai sy'n ei gasáu. Mor lluosog yw'r gwrthwynebwyr; mor gadarn yr ymddangosant. Mor sych yw ein calonnau; mor hesb ein profiad o drugaredd Duw, ac mor ymddangosiadol bitw yw seiniau ein caneuon o fawl ac o ffydd.

Nid rhithiau neu fwganod o'n creadigaeth ein hunain mo'r gelynion a wynebwn. Y mae bod yn ymwybodol o'n gwendid, meithder y llwybr drwy'r anialwch, sychder ein profiad a'r ymdeimlad o fod yn ddiamddiffyn yn brofiadau real.

Er y medrwn fod yn gyfiawn ddig yn wyneb yr anghyfiawnder llethol sydd yn ein byd, pobl yr Atgyfodiad ydym, pobl yr Arglwydd, pobl sy'n methu bodloni ar anghyfiawnder sy'n difetha teuluoedd, neu gymunedau, neu genedlaethau, neu genhedloedd byd.

Cawn ein llethu gan ofnau, gan ddigalondid neu ddiflastod llwyr, os craffwn yn rhy hir ar y rhwystrau a'r gelynion! Pobl yr Atgyfodiad ydym *heddiw*, er gwaethaf ein gwendidau, ein methiannau *ddoe*. O gamu yn ôl a mesur maintioli'r gelynion o'u cymharu ag aruthredd gorchfygol yr Arglwydd, cawn ein rhyddhau i ddarganfod hyder, gweledigaeth newydd, cryfder i orchfygu ac i ddyfalbarhau yng ngrym caneuon ein ffydd.

### Gweddi

Arglwydd, mwg, cwyr disylwedd yw dy holl elynion mewn gwirionedd. Cyfod yn ein dydd i wasgaru ein gelynion *mewnol* – ein hofnau, ein hanghrediniaeth, ein diffyg ffydd: 'Marchog, Iesu, yn llwyddiannus'. Ti yw'r hwn wyt eisoes wedi concro angau a phob gwrthwynebydd i'th ewyllys iachusol. Na, ni all daear nac uffern dy wrthsefyll. Pâr i'th enw gogoneddus wneud i bob gelyn gilio draw. Tyrd, Arglwydd Iesu, i'n plith drwy dy Ysbryd i'n bywhau, i'n cryfhau, i'n rhyddhau i'th ogoneddu mewn caneuon gorchfygol o fawl. Amen.

**Emyn** 'Marchog, Iesu' – http://www.gobaith.cymru/marchog-iesu-yn-llwyddiannus/

**Darllen – 1 Pedr 4:12–16, 1 Pedr 5:6–11**

Yn 1560 cyhoeddwyd y Geneva Bible, y cyfieithiad cyntaf o'r Beibl yn Saesneg i ddefnyddio penodau ac adnodau. Cafodd ei ddiorseddu gan gyfieithiad y Beibl Awdurdodedig (1611). Diau fod y croesgyfeiriadau achlysurol a chynnwys rhai o'r nodiadau esboniadol yn dramgwydd i'r Brenin Iago. Wrth ymateb i barodrwydd bydwragedd Hebreig i guddio'u plant rhag gorchymyn Pharo, ceisiodd Beibl Genefa egluro: 'Their disobedience herein was lawful, but their dissembling evil' (Exodus 1:19). Pa frenin, neu awdurdod, fyddai am ganiatáu i orchmynion breninhol gael eu bwrw o'r neilltu ar sail cyfarwyddyd y Beibl?

Cawn ein galw fel Cristnogion, fel rhan o'n tystiolaeth gerbron y byd, i ufuddhau i'r gyfraith. Ond nid ufudd-dod absoliwt na digwestiwn mo'r ufudd-dod hwnnw chwaith. Wrth gynghori eglwysi oedd, oherwydd eu hymlyniad wrth yr Arglwydd Iesu, yn wynebu 'prawf tanllyd' (1 Pedr 4:12) erledigaethau ysbeidiol eu dydd, ceisiodd Pedr eu hannog i fyw fel pobl anrhydeddus gan gofio mai pobl yr Arglwydd oeddynt.

### Achosion erledigaeth?

Nid yw Pedr am i'r eglwysi roi achos i'w herlidwyr eu niweidio. O'r cychwyn cyntaf roedd y syniad bod dilynwyr Crist yn deyrnfradwyr. Fel gwrthryfelwr gwleidyddol, safodd Iesu gerbron Pilat. Sylweddolodd Pilat y câi ei awydd i ryddhau Iesu ei ddehongli fel penderfyniad oedd yn annheyrngar i Gesar, oherwydd 'y mae wedi ei wneud ei hun yn frenin yn gwrthryfela yn erbyn Cesar' (Ioan 19:18). Cyhuddwyd Paul yn Philipi o 'gyhoeddi defodau nad yw'n gyfreithlon i ni sy'n Rhufeinwyr, eu derbyn na'u harfer' (Actau 16:21). Erbyn cyrraedd Thesalonica roedd y cyhuddiad yn erbyn y Cristnogion cynnar yn fwy heriol byth. 'Mae aflonyddwyr yr Ymerodraeth wedi dod yma hefyd … y mae'r bobl hyn i gyd yn troseddu yn erbyn ordeiniadau Cesar trwy ddweud fod brenin arall, sef Iesu' (Actau 17:6). Cofiwn hefyd mai cyfaill 'pechaduriaid' yw Iesu, ac yn ddi-os byddai cefndir blaenorol rhai o'r Cristnogion cynnar yn ddigon brith! Digon brith, yn wir, fel bod rhai ohonynt, cyn hyn, wedi denu sylw'r awdurdodau.

### Gwerthoedd pellgyrhaeddol

Roedd gan Gristnogion nodweddion amlwg oedd yn cael eu gweithredu yn eu teuluoedd a'u gweithleoedd. Yn awr, dangosir iddynt pa werthoedd oedd i nodweddu eu bywyd cyhoeddus. Pobl oeddynt oedd yn parchu bywyd, yn parchu eiddo pobl eraill, yn parchu bywyd gwleidyddol, yn bobl oedd yn hybu cyd-ddealltwriaeth cymunedol, ac nid yn busnesa'n gynhennus yng nghecru eu cymunedau.

### 'Pam ni?'

Byddai'n rhwydd i Gristnogion ifanc yn y ffydd, neu i gynulleidfaoedd oedd yn byw pellteroedd oddi wrth ei gilydd, deimlo'u bod wedi eu hynysu gan ymosodiadau neu erledigaethau annheg. Annheg neu beidio, nid 'rhywbeth rhyfedd' oedd yr hyn a ddigwyddodd iddynt (1 Pedr 4:12); yn wir, wnaethon nhw ddim wynebu profiad nad oedd yn gyffredin i Gristnogion (1 Pedr 5:9).

Ar ryw olwg, meddai Pedr, braint i bob Cristion oedd derbyn 'eich cyfran yn nioddefaint Crist' (4:13). Ond yr oedd hefyd yn fwy na hynny. Roedd y gwrthwynebiad 'oherwydd enw Crist' (4:13) yn dystiolaeth iddynt o realiti eu perthynas ag ef ac yn arwydd bod 'Ysbryd y gogoniant, sef Ysbryd Duw, yn gorffwys arnoch' (4:14). Nid creu meddylfryd oedd yn chwilio am ferthyrdod a wna Pedr ond eu galluogi i sefyll yn gryf. Gan adleisio geiriau Iesu, meddai, 'Os gwaradwyddir chwi oherwydd enw Crist, gwyn eich byd' (Mathew 5:12).

### Gweld a llawenhau

Nid amser ydyw i wangalonni neu lesgáu pan fydd amgylchiadau'n troi yn ein herbyn. Nid gwangalonni yw 'ymddarostwng', plygu ein calonnau, ein hofnau a'n hamgylchiadau gerbron yr Arglwydd. Yn hytrach, gweithred obeithiol ydyw; dewis ydyw i beidio â chael ein diffinio gan ein trybini na chan leisiau croch sydd am ddibrisio ein proffes a'n Harglwydd. Dewis ydyw i 'fwrw ein *holl* bryder' ar yr Arglwydd gan wybod, beth bynnag fo grŵn cefndirol amheuon ein hoes, fod 'gofal ganddo amdanoch' (5:7). Galwad ydyw i fod yn effro, yn gadarn, ac yn gryf i wrthsefyll eich gwrthwynebydd, sydd fel llew yn rhuo i'ch dychryn a'ch tarfu.

### Llawenydd

Yng nghanol yr erledigaethau, y poenau a'r ofnau a ddaw i'n rhan, cofiwn fod Duw '*pob* gras' wedi ein galw ato'i hun. Yng Nghrist, cawn brofi o'i 'dragwyddol ogoniant' (5:10) ac ef sydd ar waith ynom i'n cymhwyso i'w deyrnas. Bydd ef yn darparu cadernid a chryfder diysgog. Ohono ef y daw pob gogoniant a gallu. Yn wir, iddo ef y perthyn pob gallu a gogoniant.

Felly, mewn llawenydd, mewn llawnder, mewn rhyfeddod o ras, yng nghanol amgylchiadau dyrys a difaol ein hoes, try ein bywydau'n llawenydd, yn foliant ac yn ogoniant i'r Arglwydd Iesu Grist.

### Gweddi

Arglwydd, caniatâ i ninnau fyw yn deilwng ohonot, er dy glod, er dy fwyn, er mwyn dy alwad ar ein bywydau. Llanw'n calonnau â'th gariad a'n genau â'th glod. Amen.

**Emyn 748 'Ymlaen af dros wastad a serth'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru